**Cynllun Cyflenwi a Gweithredu ar gyfer Anabledd Dysgu a Chynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022-2026: Adroddiad Terfynu**

**Crynodeb**


Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r asesiad terfynol o gynnydd, canlyniadau, a gwersi yn sgil Cynllun Cyflenwi a Gweithredu ar gyfer Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru 2022–2026. Mae'r cynllun hwn yn ategu ac yn llywio Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022-2026, gan nodi camau penodol i gyflawni amcanion polisi strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer anabledd dysgu ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, llesiant, cynhwysiant a hawliau i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. Cafodd ei lunio ar y cyd â Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu (arweinwyr polisi'r sector cyhoeddus) a phartneriaid sy'n rhanddeiliaid.

At ei gilydd, mae'r rhaglen wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan gynnwys cryfhau tryloywder data, lleihau nifer yr arosiadau cleifion mewnol, a gwella cydweithio traws-sector. Mae rhai camau gweithredu yn adlewyrchu dulliau hirdymor a byddant yn parhau y tu hwnt i oes y cynllun strategol presennol, gan symud i'r cyfnod strategol nesaf (2026–2029)

- Ceir 35 o gamau gweithredu ar wahân.
- Mae 23 o'r eitemau naill ai wedi'u cyflawni, wedi'u cwblhau neu wedi gwneud cynnydd sylweddol fel rhan o waith parhaus, hirdymor sy'n mynd y tu hwnt i oes y cylch strategol presennol.
- Mae 7 cam gweithredu wedi cyflawni cynnydd da ond nid ydynt wedi cyflawni pob elfen o fewn y cam gweithredu, gan olygu bod angen gweithgarwch parhaus neu ychwanegol cyn eu cwblhau.
- Mae 4 cam gweithredu wedi'u cwblhau'n rhannol ond nid ydynt wedi symud yn eu blaen mor gyflym ag a ragwelwyd yn wreiddiol, ac mae gwaith parhaus yn ofynnol.
- Nid yw un o'r camau gweithredu wedi gwneud unrhyw gynnydd oherwydd bod gweithgarwch pwysig arall wedi cael blaenoriaeth.

**Deall yr adroddiad hwn**

Yn y ddogfen hon, rydym yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd yn unol â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Cyflenwi a Gweithredu, lle gellir olrhain, amlygu a gwerthuso cyflawniadau ac allbynnau yn rhwydd ar draws pob maes gwaith.

Nid ydym yn monitro cynnydd yn uniongyrchol yn unol â'r amcanion a'r canlyniadau strategol yn y Cynllun Gweithredu Strategol ar y cam hwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd effaith ac effeithiolrwydd y camau a gymerir - a'r newidiadau i'r system sy'n cael eu rhoi ar waith - yn cymryd amser i'w hymgorffori ac i gael eu profi gan unigolion a gwasanaethau. Felly, bydd cynnydd yn unol â'r amcanion strategol yn dod yn amlwg dros gyfnod hwy, wrth i ganlyniadau aeddfedu a manteision arfaethedig y rhaglen gael eu gwireddu.

Felly mae'r asesiadau o gynnydd a'r sgoriau lliw a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cyflawniadau a'r cynnydd a wnaed yn unol â'r cam gweithredu penodol yn y Cynllun Cyflawni. Nid ydynt yn nodi a yw mater neu bryder strategol ehangach wedi'i ddatrys yn llawn, dim ond bod y cam gweithredu ei hun wedi symud yn ei flaen fel y nodwyd. Fodd bynnag, er hwylustod cyfeirio, yn Atodiad A rydym wedi darparu cymhariaeth gyflym o gyflawniadau yn unol â'r Cynllun Cyflenwi a'r Cynllun Gweithredu gan ddefnyddio'r un cod lliw.

**Egluro'r Cod Lliw**

| | | |
|---|---|---|
| (gwyrdd) | Y cam gweithredu a nodwyd wedi'i gyflawni/ei gwblhau (neu ar y trywydd iawn i'w gwblhau ac wedi gwneud cynnydd sylweddol os yw'r cam gweithredu yn rhan o ffrwd waith hirdymor) | 23 |
| (ambr) | Gwnaed cynnydd da ond nid yw pob elfen o'r cam gweithredu wedi'i chyflawni. Gwaith ychwanegol yn ofynnol i gefnogi'r broses o'i gwblhau. | 7 |
| (melyn) | Rhywfaint o gynnydd ond nid cymaint ag a ragwelwyd neu sy'n ofynnol o fewn y cam gweithredu dynodedig. | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| | Dim cynnydd, dim gweithredu. | 1 |

**Cefndir**

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022-2026 ym mis Mai 2022 ar ôl cael ei ddatblygu gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu. Mewn ymgynghoriad ag arweinwyr polisi, rhanddeiliaid allweddol a phobl â phrofiad bywyd, nododd y Grŵp feysydd allweddol i'w gwella o fewn gwasanaethau anabledd dysgu ledled Cymru. Mae'r Cynllun Cyflenwi ar gyfer Anableddau Dysgu yn eistedd ochr yn ochr â'r cynllun gweithredu ac yn nodi meysydd cyflenwi allweddol ar draws pob un o'r 35 o gamau gweithredu. Mae'r Cynllun Cyflenwi hwn wedi cael ei ddiweddaru'n flynyddol gan gydweithwyr ym maes polisi ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

**Meysydd blaenoriaeth**

1. Trosfwaol/trawsbynciol
2. Adfer ar ôl COVID
3. Iechyd (gan gynnwys lleihau anghydraddoldebau iechyd a marwolaethau y mae modd eu hosgoi), gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol
4. Hwyluso byw'n annibynnol a mynediad at wasanaethau drwy gynyddu mynediad at sgiliau eiriolaeth a hunaneiriolaeth, ymgysylltu a chydweithio
5. Addysg gan gynnwys gwasanaethau plant a phobl ifanc
6. Cyflogaeth a sgiliau
7. Tai – tai addas, yn agos at eu cynefin, mynediad at wasanaethau cydgysylltiedig
8. Trafnidiaeth

**Crynodeb o'r Camau Gweithredu**

Yng ngweddill yr adroddiad hwn, rydym yn darparu gwerthusiad byr o gynnydd yn unol â'r 35 o gamau gweithredu yn y Cynllun Cyflenwi a Gweithredu ar gyfer Anabledd Dysgu. Yn **Atodiad 1** ceir adroddiad cynnydd manwl sy'n cynnwys y

diweddariad llawn ar ddiwedd y cynllun a ddarparwyd gan arweinydd polisi Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y maes gwaith hwnnw.

**Camau Gweithredu a Gwblhawyd/Camau Gweithredu sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol - Gwyrdd (23) neu Oren (7)**

Mae mwyafrif y camau gweithredu naill ai wedi'u cyflawni'n llawn, wedi'u cwblhau neu wedi'u cwblhau'n sylweddol gyda llawer iawn o waith wedi'i wneud fel rhan o waith tymor hwy. Mewn llawer o achosion, bydd angen gwaith ychwanegol neu waith parhaus yn y meysydd hyn gan y bydd angen i lawer o'r gweithgarwch hwn barhau cyn cwblhau'r gwaith yn llawn, e.e. cam gweithredu 3.1 mewn perthynas â gwasanaethau arbenigol i oedolion lle mae gweithgarwch sylweddol wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n rhan o raglen waith hirach ac sy'n llywio gweithgarwch yn y dyfodol, megis y rhaglen trawsnewid anabledd dysgu.

**Cwblhawyd yn Rhannol - Melyn 4)**

<u>Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Chynrychiolaeth</u>
Mae angen gwneud gwaith ychwanegol i sicrhau bod y maes hwn yn cael ei ystyried yn llawn o safbwynt nodweddion gwarchodedig ac ardaloedd difreintiedig eraill.

<u>Lleihau Arferion Cyfyngol a Hyrwyddo Dulliau Cadarnhaol</u>
Yn dilyn oedi cychwynnol, mae fframwaith arferion cyfyngol cenedlaethol bellach wedi'i lansio ac yn cael ei weithredu ar draws gwasanaethau, a bydd yn cymryd amser i nodi effeithiau.

<u>Galluogi Gofal Integredig drwy Daliadau Uniongyrchol a Gofal Iechyd Parhaus</u>
Mae'r Tîm Taliadau Uniongyrchol wedi cwblhau ei ymgynghoriad ac wedi cwblhau'r ddeddfwriaeth eilaidd angenrheidiol, a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

<u>Llais, Dewis a Rheolaeth gan gynnwys Eiriolaeth a Hunaneiriolaeth</u>
Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn, gan gynnwys adroddiad cynhwysfawr ar yr heriau sy'n gysylltiedig â diffyg cymorth eiriolaeth a hunaneiriolaeth ar draws gwasanaethau, nid yw'r cynnydd cystal ag y gobeithiwyd, a

bydd angen rhoi sylw i hyn fel blaenoriaeth yn y dyfodol os bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu yn cytuno.

**Heb Symud yn ei Flaen – Coch (1)**

Cyfeillgarwch a pherthynas ag eraill

Gohiriwyd dechrau'r gwaith ar y cam gweithredu hwn oherwydd pwysau o ran capasiti a blaenoriaethau croes a ddaeth i'r amlwg, yn bennaf yr angen am ffocws cynyddol i fynd i'r afael â phryderon a fynegwyd gan ymgyrch Bywydau wedi'u Dwyn Cymru. Mae angen i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu wneud gwaith yn y dyfodol i benderfynu a yw hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y cam nesaf.

**Crynodeb o'r Camau Gweithredu Unigol**

**Maes blaenoriaeth 1: Trosfwaol a Thrawsbynciol**

**1.1 Cyhoeddi Cynllun gweithredu strategol newydd pedair blynedd ar gyfer anabledd dysgu**

| **Cyflawnwyd** |
|---|

Cafodd Cynllun Gweithredu ar Anabledd Dysgu 2022–2026 a'i Gynllun Cyflenwi a Gweithredu cysylltiedig eu cydgynhychu a'u cyhoeddi yn 2022. Mae adolygiadau blynyddol wedi'u cynnal, gan ddarparu goruchwyliaeth a sicrhau bod y cynlluniau'n parhau i fod yn berthnasol. Cadarnhaodd adolygiad ffurfiol a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Mai 2024 fod y blaenoriaethau strategol yn parhau i fod yn briodol. Yn dilyn hynny mae swyddogion Llywodraeth Cymru, Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu, a Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi dechrau ar waith i lunio Rhaglen Trawsnewid Integredig ddiwygiedig tair blynedd ar gyfer 2026-29, a fydd yn sail i'r cam datblygu polisi strategol nesaf.

### 1.2 Trefniadau Llywodraethu, Hygyrchedd ac Ymgysylltiad Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu

| **Cyflawnwyd** |
| --- |

Parhaodd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu i weithredu'n effeithiol drwy gyfarfodydd chwarterol, gyda chyfuniad o gyfranogiad wyneb yn wyneb a rhithwir. Mae'r grŵp yn cynnal ffocws cyson ar hygyrchedd, gan gynnal adolygiadau a gwneud gwelliannau rheolaidd, wrth nodi cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o waith y grŵp. Drwy gydol 2025–26, parhaodd gweithdai fformat cymysg a thematig i wella ymgysylltiad ar draws sectorau a rhanbarthau. Mae cynlluniau ar y gweill i gydgynhyrchu a gwella'r Grŵp Gweinidogol ar gyfer tymor nesaf y Senedd.

### 1.3 Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Chynrychiolaeth

| **Cwblhawyd yn rhannol** |
| --- |

Amlygodd gwaith cychwynnol gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu fod materion yn ymwneud â phobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn cael eu tan-adrodd yn sylweddol ac nad oeddent yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn trafodaethau polisi ar anabledd dysgu. Datblygodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gynnig i adolygu'r modd y mae'r polisïau anabledd dysgu presennol yn effeithio ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ac mae'r gwaith hwn wedi'i ymgorffori yn null ehangach Llywodraeth Cymru o brif ffrydio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth ddatblygu polisïau. Mae Asesiadau Effaith Integredig, sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig, yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ar gyfer y strategaeth anabledd dysgu a'r rhaglen drawsnewid integredig sydd ar ddod.

### 1.4 Data ac Arsyllfa Genedlaethol i Gymru

| **Cwblhawyd** |
| --- |

Canfu astudiaeth ddichonoldeb ym mis Ebrill 2024 nad oedd modd sefydlu Arsyllfa Anabledd Dysgu ar gyfer Cymru oherwydd pwysau o ran capasiti, cyllid a

threfniadaeth. Gwnaeth y cyfeiriad gwleidyddol a dyfodiad sefydliadau newydd megis Perfformiad a Gwella GIG Cymru hefyd leihau'r angen am arsyllfa annibynnol. Yn lle hynny, mae dulliau amgen o gasglu a defnyddio data wedi cael eu datblygu. Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi arwain gwaith sylweddol, gan gynnwys penodi dadansoddwr arbenigol, drafftio catalog o ffynonellau data, archwilio ffyrdd gwell o ddefnyddio setiau data presennol, ehangu dulliau mesur canlyniadau ansoddol, a chynyddu cydweithrediad â thimau dadansoddol GIG Cymru i sicrhau yr ymgorfforir data mewn gwaith iechyd y boblogaeth ehangach. Mae cynnydd pellach yn cynnwys adolygu gwariant ar wasanaethau arbenigol a gwella gwelededd data drwy adnoddau megis y cyfrifiad chwarterol.

### 1.5 Lleihau Arferion Cyfyngol a Hyrwyddo Dulliau Cadarnhaol

**Cwblhawyd yn rhannol, a'r gwaith i'w barhau**

Mae fframwaith arferion cyfyngol cenedlaethol bellach wedi'i lansio, ac, er gwaethaf yr oedi cychwynnol, mae'r broses o'i roi ar waith yn mynd rhagddi'n dda ar draws y sectorau. Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cynnal gweithdai gyda phobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd, wedi cynnal digwyddiad rhithwir cenedlaethol, ac wedi cyfrannu at y Rhwydwaith Lleihau Arferion Cyfyngol wrth sefydlu grŵp cyfeirio arbenigol ar gyfer Cymru gyfan. Gan weithio gyda Byrddau Iechyd a Thîm Unwaith i Gymru, mae Datix wedi'i uwchraddio i gofnodi achosion o ddefnyddio arferion cyfyngol mewn lleoliadau cleifion mewnol. Mae'r adnoddau a luniwyd yn cynnwys pecyn Codi Ymwybyddiaeth, fframwaith cenedlaethol ar ddulliau anfferyllol, a chwrs e-ddysgu ar Leihau Arferion Cyfyngol, ochr yn ochr â chymorth parhaus i'r Gymuned Ymarfer: Ymddygiadau Sy'n Peri Gofid Cymru Gyfan. Mae teuluoedd a gofalwyr hefyd wedi cael eu huwchsgilio drwy adnodd Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a luniwyd ar y cyd, ac mae'r Byrddau Iechyd wedi cael eu cefnogi i sicrhau bod eu polisïau ar leihau arferion cyfyngol yn cyd-fynd â'r fframwaith cenedlaethol.

### 1.6 Cydgynhyrchu a Rhwydweithiau Cenedlaethol

**Cyflawnwyd**

Mae cydgynhyrchu yn parhau i gael ei hyrwyddo gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu a swyddogion, ac mae bellach wedi'i ymgorffori fel arfer safonol ar draws polisïau anabledd dysgu a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae gwaith diweddar, megis gweithgarwch Bywydau wedi'u Dwyn Cymru a datblygu'r rhaglen drawsnewid integredig, yn tynnu sylw at ba mor effeithiol y mae'r dull hwn wedi bod.

Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi gweithio gyda Cyd-gynhyrchu Cymru i'w ymgorffori ymhellach o fewn strwythurau llywodraethu a thrwy hyfforddi aelodau o gymunedau ymarfer penodol i anabledd dysgu. Lansiwyd Rhwydwaith Cenedlaethol ar Anabledd Dysgu ym mis Hydref 2025, sy'n ymgysylltu'n rheolaidd, ac mae cynnydd ychwanegol yn cynnwys sefydlu rhwydwaith ffurfiol o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ym maes Anabledd Dysgu.

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, bydd angen gwaith pellach i sicrhau bod cynnydd yn cael ei gynnal a bod cydgynhyrchu yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae cydgynhyrchu hefyd yn cael ei hyrwyddo'n ehangach drwy waith trawslywodraethol ar y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a thrwy ymgorffori'r model cymdeithasol o anabledd.

## **Maes Blaenoriaeth** 2: **Adfer ar ôl COVID a Llesiant**

### 2.1 Presgripsiynu cymdeithasol, unigrwydd ac ynysigrwydd

| **Cyflawnwyd a'r gwaith yn parhau** |
|---|

Gan adeiladu ar y Fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023, lansiwyd canllawiau ar y 'Safonau a Gwerthoedd Craidd ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol yng Nghymru' a gwybodaeth am blatfform sgiliau digidol newydd yn ystod yr Arddangosfa Presgripsiynu Cymdeithasol Genedlaethol ar 10 Mawrth 2026. O safbwynt cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol, bydd hyn yn cau'r ymrwymiad o'r safbwynt hwn, er y bydd gwaith yn parhau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd presgripsiynu cymdeithasol.

## 2.2 Llesiant

**Cwblhawyd**

Nid oes unrhyw weithgarwch annibynnol wedi'i gysylltu'n benodol â'r cam gweithredu hwn. Mae'r gwaith parhaus yn canolbwyntio ar wella llesiant pobl ag anabledd dysgu drwy sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hymgorffori ar draws polisïau ac wrth ddatblygu gwasanaethau ehangach.

Anogir gwasanaethau anabledd dysgu i ddefnyddio fframwaith iechyd meddwl a llesiant NYTH wrth gefnogi babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru hefyd wedi arwain y gwaith o ddatblygu canllawiau newydd ar ddarparu ymyriadau seicolegol i blant, pobl ifanc ac oedolion ag anabledd dysgu.

## 2.3 Adfer ar ôl COVID

**Cwblhawyd**

Mae'r gwersi o'r pandemig yn parhau i lywio'r broses o ddatblygu polisïau ar ôl COVID, ac ni fydd unrhyw waith strategol pellach yn dechrau tan i Ymchwiliad COVID ddod i ben a nodi meysydd i'w gwella.

# 3. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## 3.1 Yr Adolygiad o Wasanaethau Arbenigol i Oedolion (2020)

**Cyflawnwyd yn rhannol - Gweithgarwch sylweddol wedi'i gwblhau, bydd y gwaith yn parhau**

Mae'r argymhellion o adolygiad Gwella Gofal, Gwella Bywydau 2020 ynghylch cleifion mewnol sy'n oedolion yn parhau i gael eu rhoi ar waith, er y cydnabyddir y bydd hyn yn cymryd peth amser i'w gwblhau'n llawn.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cryfhau gwasanaethau anabledd dysgu arbenigol yng Nghymru ers sefydlu'r Grŵp Gweithredu a Sicrwydd Cenedlaethol ar gyfer Anabledd Dysgu yn 2022. Mae'r Grŵp wedi goruchwylio'r broses o gyflawni'r cynllun gweithredu cenedlaethol, wedi monitro'r modd y caiff argymhellion *Gwella Gofal: Gwella Bywydau* eu rhoi ar waith, ac wedi ysgogi gwelliannau ar draws gwasanaethau cleifion mewnol a chymunedol. Mae tri grŵp gorchwyl a gorffen wedi cyflwyno argymhellion cenedlaethol ar atal a gofal mewn argyfwng, lleihau gor-bresgripsiynu, a gwella prosesau pontio ysbytai, gan gynnwys fframwaith anfferyllol ar gyfer ymddygiadau sy'n peri pryder a chynigion i leihau oedi a hyd arosiadau mewn ysbytai. Cytunwyd hefyd ar ddatganiad ar y cyd, ar draws y sectorau, sy'n seiliedig ar werthoedd mewn perthynas ag atal, ymyrryd yn gynnar a gofal mewn argyfwng.

Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cryfhau sicrwydd cenedlaethol drwy gynnal archwiliadau chwarterol o welyau cleifion mewnol, dadansoddi data'n barhaus, ac adrodd yn fisol ar oedi wrth ryddhau cleifion ac o ran llwybrau gofal. Mae metrigau sicrhau newydd ar gyfer anabledd dysgu wedi'u mabwysiadu, a bwriedir cyhoeddi data archwilio cleifion mewnol yn genedlaethol am y tro cyntaf yn dilyn cyfrifiad mis Ebrill 2026. Cyhoeddwyd adolygiad o amgylcheddau ffisegol cleifion mewnol yn 2024, a chyflwynodd y Byrddau Iechyd gynlluniau gweithredu i sicrhau bod cyfleusterau'r GIG yn cyrraedd safonau tebyg i'r sector annibynnol. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i gwmpasu darpariaeth ysbytai ddiogel yn y dyfodol yng Nghymru.

Mae'r Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol wedi adolygu eu gwasanaethau yn unol â'r blaenoriaethau strategol, gan gyfrannu at fodel “busnes craidd” a rennir i hyrwyddo addasiadau rhesymol a llywio cynigion i foderneiddio gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau cleifion mewnol arbenigol. Cafodd y cynigion hyn, sydd â'r nod o leihau derbyniadau y mae modd eu hosgoi a byrhau arosiadau, eu cymeradwyo gan Weinidogion ym mis Ionawr 2026 fel sail ar gyfer cynllun trawsnewid integredig tair blynedd. Mae canllawiau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymunedol arbenigol a rhyddhau amserol yn cael eu datblygu, ochr yn ochr â Fframwaith Optimeiddio Gofal Cleifion mewn Ysbytai ar gyfer modelau gofal cleifion mewnol yn y dyfodol.

### 3.2 Marwolaethau

**Cyflawnwyd a'r gwaith yn parhau**

Mae prosesau adolygu marwolaethau unigolion ag anabledd dysgu a phrosesau gwasanaethau Archwiliwr Meddygol wedi cael eu cryfhau. Mae tîm Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cyfrannu arbenigedd ym maes anabledd dysgu at nifer o drafodaethau cenedlaethol, wedi helpu i fireinio fframwaith adolygu marwolaethau Llywodraeth Cymru, wedi cyfrannu at y papur Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd, ac wedi awduro'r adroddiad penodol cyntaf i Gymru ar farwolaethau unigolion ag anabledd dysgu, sy'n cwmpasu deng mlynedd o ddata, ac a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2024. Mae'r canfyddiadau wedi cael eu rhannu ac mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu a rhwydweithiau proffesiynol cenedlaethol wedi archwilio'r argymhellion. Mae gwaith cydweithredol parhaus gyda'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn parhau i wella'r cyfleoedd i rannu data a dysgu, ac mae cynnydd yn cael ei wneud drwy'r Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd erbyn hyn.

### 3.3 Addysg y Gweithlu

**Cyflawnwyd (Gwaith ychwanegol yn parhau)**

Lansiwyd cam sylfaenol hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anableddau Dysgu Paul Ridd (Haen 1) ym mis Ebrill 2022, a rhennir adroddiadau chwarterol ar y nifer sy'n manteisio arno ledled Cymru. O fewn 18 mis, cyrhaeddodd saith bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd gydymffurfiaeth o fwy na 70%, ac mae tua 80,000 o aelodau staff bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant, gyda chefnogaeth ymgyrchoedd ac adnoddau cenedlaethol. Arweiniodd adborth at Haen 1 Fersiwn 2 ddiwygiedig yn 2025, sydd bellach ar gael hefyd drwy Gofal Cymdeithasol Cymru, platfform Tŷ Dysgu AaGIC, ac fel llyfryn. Datblygwyd hyfforddiant Haen 2 (estynedig) ar y cyd ag AaGIC ac fe'i cyflwynwyd yn ystod hydref 2025, ac mae'n cael ei ddiweddaru'n barhaus. Mae hyfforddiant Haen 3 (uwch) yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

### 3.4 Safonau Ansawdd a Diogelwch ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol i Oedolion ag Anabledd Dysgu

**Cyflawnwyd a'r gwaith yn parhau**

Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi datblygu'r Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Pobl ag Anabledd Dysgu ar ran Llywodraeth Cymru, gan dynnu ar ddata, mewnwelediadau, gweithdai, ac ymgysylltu helaeth â phrofiadau bywyd drwy Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan. Mae'r datganiad bellach yn cael ei gwblhau cyn ei gyhoeddi cyn diwedd tymor y llywodraeth bresennol. Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd o ran cryfhau Metrigau Sicrwydd Anabledd Dysgu Cymru Gyfan, gyda chyfranogiad llawn gan y Byrddau Iechyd, ac o ran ymgorffori adroddiadau cyfrifiad chwarterol arbenigol ar gleifion mewnol. Mae gwelliannau pellach i hygyrchedd data yn cynnwys cytundeb i Iechyd a Gofal Digidol Cymru gynnal y cyfrifiad ar y Platfform Dadansoddi Data Cenedlaethol (NDAP) o fis Ebrill 2026, gan alluogi mynediad at ddata lefel cleifion a chyhoeddi data dienw, a sicrhau bod data'r Archwiliad Iechyd Blynyddol ar gael drwy'r Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol.

### 3.5 Mynediad at Archwiliadau Iechyd

**Cwblhawyd yn Rhannol – Gwaith ychwanegol yn parhau**

Ar ôl eu canslo yn ystod y pandemig, mae gwaith helaeth wedi'i wneud i wella Archwiliadau Iechyd Blynyddol i Bobl ag Anabledd Dysgu ledled Cymru. Galluogodd cynlluniau peilot cynnar ac adroddiad cryno gyllid ychwanegol er mwyn i fyrddau iechyd archwilio dulliau arloesol ar gyfer cynyddu archwiliadau iechyd yn 2023/24 a 2024/25. Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi darparu hyfforddiant gwella, wedi cyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu cenedlaethol, wedi creu pecyn addysg gydag 14 o fodiwlau, ac wedi diweddaru'r Pecyn Adnoddau Gofal Sylfaenol mewn partneriaeth â Nyrsys Cyswllt Sylfaenol Anableddau Dysgu. Mae gweithdai Cyswllt Gofal Sylfaenol rheolaidd hefyd wedi'u sefydlu.

Profodd cynllun peilot yn 2024/25 fodel cyflawni seiliedig ar glwstwr, gan amlygu rolau hanfodol Nyrsys Cyswllt Gofal Sylfaenol Anableddau Dysgu a Rheolwyr Practisau, gan lywio diweddariadau i dempledi EMIS a VISION. Mae'r datblygiadau arloesol eraill wedi cynnwys cefnogi'r prosiect Archwiliadau Iechyd Blynyddol o bell, *Lab mewn Bag,* a pheilot ar gyfer Archwiliadau Iechyd Blynyddol i bobl ifanc

Llwyddodd swyddogion i gynnwys Archwiliadau Iechyd Blynyddol i bobl ag anabledd dysgu yng nghontractau craidd meddygon teulu o fis Ebrill 2025, gan sicrhau'r hawl i bob unigolyn cymwys, ochr yn ochr â £770,000 o gyllid i gyflawni hyn yn 2025/26. Sefydlwyd Gweithgor Cenedlaethol â mwy na 60 o gynrychiolwyr yn 2025, gan ddatblygu Llwybr Profiad Cleifion newydd i'w lansio ym mis Mawrth 2026, yn ogystal â Phecyn Cymorth Cyfathrebu ac Adnoddau, a gwaith tuag at wefan genedlaethol, *Gofalwch am eich Iechyd Cymru.*
Arweiniodd Perfformiad a Gwella GIG Cymru ddatblygiadau sylweddol o ran mynediad at ddata ac ansawdd data, gan wella gwelededd data Archwiliadau Iechyd Blynyddol drwy'r Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol, cryfhau codio clinigol, a chyflwyno Offeryn Cynhwysiant. Mae cydweithio â rhaglenni gofal sylfaenol cenedlaethol, AaGIC, ac arweinwyr eraill wedi arwain at archwilio opsiynau gweithredu ar draws y system. Mae ymgysylltu ag awduron gwreiddiol yr Archwiliad Iechyd Blynyddol wedi llywio ei ddatblygiad parhaus.
Bydd 2025-26 yn gweithredu fel mesur sylfaenol o dan y system newydd, a bydd y gweithgarwch yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Archwiliadau Iechyd Blynyddol, gwella eu hansawdd, ac ar werthuso eu heffeithiolrwydd a'u heffaith ar ganlyniadau iechyd.

### 3.6 Platfform digidol i gefnogi'r Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd ledled Cymru.

**Cyflawnwyd yn Rhannol (Gwaith ychwanegol yn parhau)**

Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi arwain gwaith helaeth i gryfhau'r defnydd o'r Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd a'r HEF+ ledled Cymru. Gwnaethant ddatblygu a rhannu deunyddiau hyfforddi'r Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd â phob bwrdd iechyd a thair prifysgol, a chreu Llyfryn Gwybodaeth a rhestr wirio HEF+ i gefnogi defnydd uniongyrchol ymhlith defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r tîm wedi parhau i gynorthwyo'r byrddau iechyd i weithredu'r Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd, ac wedi cwblhau cynllun gweithredu ar ddilysu'r offeryn Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd a gaiff ei raddio gan ddefnyddwyr gwasanaethau, gan lunio adroddiad cryno ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran digideiddio'r Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd, gan gynnwys asesiadau technegol a phensaernïol, adroddiadau alffa, ac ymgysylltu â'r Awdurdod Dylunio Digidol a Data. Comisiynwyd prototeip digidol ar gyfer profion beta. Mae gwaith yn parhau gyda Hywel Dda i ddigideiddio'r HEF+ a'i gyflwyno'n genedlaethol. Mae iaith yr offeryn wedi cael ei moderneiddio. Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cyhoeddi canllawiau a safonau cenedlaethol newydd i fyrddau iechyd i atgyfnerthu pwysigrwydd HEF+ a chefnogi'r broses o gwblhau Metrigau Sicrwydd Anableddau Dysgu Cymru Gyfan.

### 3.7 Lleihau anghydraddoldebau iechyd, marwolaethau cynamserol a marwolaethau y gellir eu hosgoi

**Cwblhawyd (a'r gwaith i'w barhau)**

Nododd archwiliad cenedlaethol amrywiad eang yn yr adnoddau cyfathrebu iechyd presennol, gan arwain at gydgynhyrchu'r Proffil Iechyd Unwaith i Gymru cyntaf ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc (offeryn cyfathrebu iechyd cenedlaethol safonol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu). Datblygodd Perfformiad a Gwella GIG Cymru adnoddau i helpu i ymgorffori'r Proffil Iechyd, a gwnaeth y tîm gefnogi'r broses o archwilio fersiwn ddigidol drwy gyfrannu at Ap GIG Cymru, a gweithiodd gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i ychwanegu promptiau at yr asesiadau cychwynnol. Llywiodd gwerthusiad cenedlaethol weithgarwch pellach.

Crëwyd y canllawiau *Gofyn, Addasu, Cynorthwyo* i helpu gweithwyr proffesiynol i wneud addasiadau rhesymol ymarferol sy'n gwella canlyniadau iechyd.

Cyfrannodd Perfformiad a Gwella GIG Cymru at raglen fawr i wella mynediad at frechlynnau i bobl ag anabledd dysgu, gan gynnwys datblygu arolygon a chydgynhyrchu canllawiau a strategaethau i gynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu. Creodd aelodau'r tîm fideos a llyfrynnau hawdd eu deall, yn ogystal ag adnoddau "Awgrymiadau Gwych" proffesiynol. Gwnaethant hefyd gydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru i gynhyrchu fideo a chanllaw esboniadol.

Rhoddwyd cymorth sylweddol i wasanaethau sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru a Mentrau Iechyd y Coluddyn er mwyn cynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio ymhlith pobl ag anableddau dysgu.

Mae cynnydd wedi'i wneud gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i sicrhau bod y Proffil Iechyd ac anableddau dysgu yn cael eu nodi a'u hymgorffori mewn systemau digidol, gan gynnwys Cofnod Gofal Nyrsio Cymru ac Ap GIG Cymru. Mae gwasanaethau anabledd dysgu yn cael eu cefnogi i nodi unigolion mewn systemau byrddau iechyd lleol.

Cydweithiodd Perfformiad a Gwella GIG Cymru ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i wella'r System Cofnodion Cleifion Electronig, gan greu cronfa ddata i gefnogi proses casglu data well a sicrhau mynediad at Broffil Iechyd Unwaith i Gymru.

Mae adolygiad llawn wedi'i gwblhau o Fwndel Gofal Acíwt Anableddau Dysgu, gydag argymhellion wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac mae gwaith ar y gweill i sefydlu grŵp cenedlaethol.

Mae cymorth wedi'i ddarparu er mwyn cadw at ganllawiau dementia proffesiynol newydd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Mae'r tîm hefyd wedi cefnogi'r broses o weithredu Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan sy'n berthnasol i wasanaethau anabledd dysgu.

### 3.8 Unigrwydd ac Ynysigrwydd

| **Cwblhawyd a'r gwaith yn parhau** |
| --- |

Mae cynrychiolydd o Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn eistedd ar y Grŵp Cynghori ar Unigrwydd ac Ynysigrwydd i sicrhau bod profiadau pobl ag anabledd dysgu yn cael eu deall a'u hystyried. Mae rhywfaint o Gronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd (2021–24) Llywodraeth Cymru sy'n werth £1.5m wedi cael ei ddefnyddio gan bartneriaethau lleol i greu cyfleoedd cymdeithasol, ac mae gwaith o fewn gwasanaethau dydd yr

awdurdodau lleol hefyd yn archwilio sut mae newidiadau i wasanaethau yn effeithio ar unigrwydd ac ynysigrwydd.
Er bod y camau gweithredu penodol wedi'u cyflawni, bydd y maes gwaith hwn yn parhau i gael ei ddatblygu fel rhan o'r cynllun trawsnewid tair blynedd.

### 3.9 Gwasanaethau dydd, gofal seibiant a seibiannau byr

**Cwblhawyd yn rhannol, ac mae'r gwaith yn parhau**

Cyhoeddir y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn 2026, a bydd yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd seibiannau amserol a ddarperir gan awdurdodau lleol, wedi'u cefnogi gan y Gronfa Seibiannau Byr, sydd wedi'i hymestyn i 2029, yn ogystal â pharhau i ddarparu seibiannau unigol ychwanegol i ofalwyr di-dâl o bob oed drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, a rhagori ar y targed o 30,000 o seibiannau ychwanegol rhwng 2022 a 2025. Mae adolygiad o ddarpariaeth gwasanaethau dydd awdurdodau lleol, a gomisiynwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, wedi llywio gwelliannau sy'n cael eu rhoi ar waith gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac mae ei ganfyddiadau bellach yn llywio polisïau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwaith yn ymwneud ag anableddau dysgu a'r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol.

### 3.10 Galluogi Gofal Integredig drwy Daliadau Uniongyrchol a Gofal Iechyd Parhaus

**Peth cynnydd, ac mae'r gwaith yn parhau**

Cymerodd y gwaith hwn beth amser i'w ddatblygu, mae bellach yn dechrau cyflymu'n sylweddol a bydd yn parhau y tu hwnt i oes y cynllun presennol. Mae GIG Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gryfhau Taliadau Uniongyrchol Gofal Cymdeithasol ac i gefnogi'r broses o gyflwyno Taliadau Uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus, gan roi cymorth mwy hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 yn galluogi taliadau uniongyrchol am ofal

iechyd, gan gynnwys Gofal Iechyd Parhaus, gan helpu i wella'r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus a'r taliadau uniongyrchol presennol. Mae'r Tîm Taliadau Uniongyrchol wedi cwblhau'r ymgynghoriad a'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol, a ddisgwylir i hyn ddod i rym ar 1 Ebrill 2026, a bydd canllawiau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi. Mae ymgysylltiad parhaus â'r Byrddau Iechyd yn cefnogi proses gyson o gyflwyno Taliadau Uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus, gan dynnu ar wersi a ddysgwyd gan dimau awdurdodau lleol yng Nghymru a'r Byrddau Gofal Integredig yn Lloegr. Mae cydweithio ar draws meysydd polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y gweithlu, y Swyddfa Genedlaethol, ac iechyd pobl ifanc, yn parhau i fod yn ganolog wrth baratoi ar gyfer gweithredu.

### 3.11 Cefnogi rhieni ag anabledd dysgu

**Cwblhawyd**

Cyhoeddwyd canllawiau a daethant yn weithredol ar 19 Ebrill 2023 a chawsant eu hyrwyddo wedi hynny.

### 3.12 Adolygu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Cwblhawyd**

Mae'r gwerthusiad wedi'i gwblhau a datblygwyd cwestiynau prawf i arwain y sector o ran meysydd y mae angen eu gwella. O ganlyniad, mae'r gwerthusiad yn cael ei gynnwys yn y broses o weithredu'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol

### 3.13 Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol

**Cyflawnwyd yn rhannol, cynnydd da ac mae'r gwaith yn parhau**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu cymorth hirdymor i'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gydnabod ei rôl hanfodol, ac mae wedi ymrwymo i godi ei broffil drwy ehangu'r broses gofrestru a gwella cyflogau ac amodau. Mae buddsoddiad sylweddol drwy Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi'r broses o wella'r gweithlu,

recriwtio a chadw staff, a chynllunio ar draws yr awdurdodau lleol. Mae Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu £7m y flwyddyn, ynghyd â £3 miliwn gan awdurdodau lleol, i ariannu hyfforddiant, cymunedau ymarfer, a chyfleoedd datblygu ehangach. Ers 2022, mae cyllid wedi'i ddarparu drwy'r Grant Cynnal Refeniw fel modd o dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, a hynny wedi'i gefnogi gan werthusiadau annibynnol sy'n dangos cynnydd cryf, gan hefyd nodi meysydd lle nad yw gweithwyr yn derbyn y cynnydd hwnnw. Mae monitro uwch wedi'i gynllunio ar gyfer 2026–27 i fynd i'r afael â hyn. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar Gytundebau Cyflog Teg, er y bydd eu gweithredu'n cymryd amser, gan ei gwneud hi'n hanfodol bod y mesurau presennol, yn enwedig y cyflog byw gwirioneddol, yn parhau i weithredu'n effeithiol.

### 3.14 Gweithlu nyrsys anableddau dysgu

**Cyflawnwyd a'r gwaith yn parhau**

Mae cynnydd da eisoes wedi'i wneud ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fodelu'r gweithlu y mae ei angen i ddiwallu anghenion holistaidd pobl ag anabledd dysgu, gan gynnwys deall lle mae'r angen mwyaf am nyrsys Anabledd Dysgu. Mae opsiynau i ehangu mynediad at addysg nyrsys anabledd dysgu yn cael eu harchwilio, ac mae'r prosesau recriwtio yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae partneriaid hefyd yn adolygu llwybrau gyrfa er mwyn cryfhau dilyniant. Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio yn ymgymryd â gwaith ailstrwythuro strategol, gan gynnwys penodi swyddog nyrsio pwrpasol sydd ag arbenigedd ym maes Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl. Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru hefyd wedi darparu cymorth cenedlaethol i nyrsys cyswllt acíwt anabledd dysgu arbenigol, gan rannu arfer da a helpu i ddatblygu cronfa ddata i ddangos tystiolaeth o'u gweithgarwch a'u heffaith.

### 3.15 Gofalwyr a Pholisi Gofalwyr

**Cyflawnwyd a'r gwaith yn parhau**

Mae'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd (2 Chwefror–13 Ebrill 2026), ac mae'n cydnabod gofalwyr di-dâl ag anabledd dysgu yn benodol, gan ddisgwyl i awdurdodau lleol a'r trydydd sector adlewyrchu hyn yn eu dulliau a sicrhau bod gwybodaeth ar gael. Mae ymgysylltu eisoes wedi digwydd â gofalwyr ag anabledd dysgu a gofalwyr di-dâl sy'n cefnogi pobl ag anabledd dysgu, a bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn llywio'r strategaeth ymhellach. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu at bolisïau a chanllawiau ehangach i sicrhau bod rôl bwysig gofalwyr di-dâl yn cael ei chydnabod, yn enwedig wrth gynllunio gofal a rhyddhau pobl ag anabledd dysgu o'r ysbyty.

**Maes Blaenoriaeth 4: Eiriolaeth, Hunaneiriolaeth, Ymgysylltu a Chydweithio**

### 4.1 Llais, Dewis a Rheolaeth

**Cwblhawyd yn rhannol, ac mae'r gwaith yn parhau**

Dechreuodd y gwaith yn y maes hwn yn hwyrach na'r disgwyl wrth i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei chwmpas yn glir, ac ym mis Ionawr 2023 comisiynwyd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i adolygu a gwerthuso gwasanaethau eirioli a hunaneirioli ledled Cymru er mwyn llywio fframwaith traws-sector posibl. Daeth yr adroddiad terfynol i law ym mis Mai 2024 ac mae swyddogion yn ei ystyried, a disgwylir rhagor o gyfarwyddyd gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu er mwyn penderfynu sut y dylai gyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer tymor nesaf y llywodraeth o ystyried y pwysau presennol ar adnoddau. Oherwydd maint y gwaith hwn, mae cynlluniau ar waith i'w ailystyried a phenderfynu ar y camau nesaf fel rhan o'r cynllun trawsnewid tair blynedd ar gyfer y dyfodol.

### 4.2 Cynhwysiant Digidol

**Cyflawnwyd – cynnydd da ac mae'r gwaith yn parhau**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal 47 o gynlluniau peilot Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ledled Cymru, gan gefnogi pobl drwy gynnig dyfeisiau, cysylltedd a

sgiliau digidol sylfaenol, ac mae hefyd wedi cynnal cynlluniau peilot gyda phum llyfrgell i gyd-fynd â Mis Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2026, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ffordd ddiogel a chyfrifol. Dechreuodd rhaglen newydd Cynhwysiant Digidol Cymru ym mis Hydref 2025, gan gynnig cyngor a chymorth i sefydliadau ar gynhwysiant digidol a'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol. Yn ogystal, comisiynwyd Miller Research Ltd i archwilio'r cysylltiadau rhwng y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ac anghydraddoldebau iechyd ac i gynnal arolwg sylfaenol o bobl 16 oed a hŷn sy'n byw islaw'r Safon, a disgwylir y canfyddiadau yng Ngwanwyn 2026.

### 4.3 Cyfeillgarwch a Pherthynas ag Eraill

**Heb symud yn ei flaen**

Nid yw'r gwaith ar y cam gweithredu hwn wedi dechrau eto oherwydd pwysau o ran capasiti a blaenoriaethau croes, yn enwedig mewn perthynas â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bywydau wedi'u Dwyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf, er bod materion cysylltiedig yn parhau i gael eu hystyried drwy waith ehangach megis gwasanaethau dydd ac unigrwydd ac arwahanrwydd. Bydd angen i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu benderfynu a yw hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'w gynnwys mewn strategaeth anabledd dysgu yn y dyfodol, ac os cytunir ar hynny, bydd y grŵp yn ei symud yn ei flaen fel ffrwd waith yn y dyfodol.

## Maes Blaenoriaeth 5: Addysg, Plant a Phobl Ifanc

### 5.1 Gwasanaethau Anabledd Dysgu Plant a Phobl Ifanc

**Cwblhawyd yn rhannol – cynnydd da ac mae'r gwaith yn parhau**

Dyfarnodd Perfformiad a Gwella GIG Cymru grantiau ar gyfer chwe phrosiect gwella wedi'u targedu ledled Cymru, gan brofi modelau gwasanaeth newydd ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion ag anghenion cymhleth. Roedd y prosiectau'n amrywio o offer digidol i gefnogi dewis ym maes tai, cymorth blynyddoedd cynnar i deuluoedd, hybiau cymunedol, cyfathrebu atgyfnerthol mewn ysgolion, a mentrau i leihau

arferion cyfyngol, a chafodd y canlyniadau eu harddangos yn genedlaethol ac maent yn llywio prosesau gweithredu ar gyfer y dyfodol.
Comisiynwyd rhaglen ymchwil tri cham gyda Phrifysgol Wrecsam, gan nodi bylchau rhwng polisi ac ymarfer a chasglu gwybodaeth gan deuluoedd, byrddau iechyd a gweithwyr proffesiynol rheng flaen i lywio gwelliannau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
Mae'r Gymuned Ymarfer ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledd dysgu wedi tyfu'n sylweddol ac mae'n darparu adborth uniongyrchol i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu. Gwnaeth cynllun peilot Her Iechyd gryfhau'r cydweithio rhwng iechyd ac addysg, gwella'r defnydd o'r proffil iechyd 40%, a derbyn cefnogaeth gref gan ysgolion arbennig.

Gwnaeth y tîm hefyd gydgynhyrchu'r Weledigaeth Genedlaethol a'r Cynllun Gweithredu cyntaf ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anabledd Dysgu. Datblygwyd fersiwn weledol i wella hygyrchedd, ac mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi Egwyddorion Gofal clir i gefnogi system fwy cynhwysol ac integredig ar draws y sector cyhoeddus. Bydd y gwaith hwn yn rhan o'r cyfnod strategol nesaf a fydd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth i bob oed.

### 5.2 Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Cyflawnwyd a'r gwaith yn parhau**

Mae'r system ADY bellach wedi'i hymgorffori'n llawn ledled Cymru, ac mae mwy na 32,000 o ddysgwyr yn cael eu cefnogi drwy gynlluniau datblygu unigol statudol, a'r niferoedd yn parhau i gynyddu. Amlygodd adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ADY, ochr yn ochr â gwerthusiad ehangach o'r system, gynnydd cryf ym maes addysg gynhwysol ond hefyd feysydd lle mae angen mwy o eglurder a chysondeb. Mewn ymateb, cyhoeddwyd camau gweithredu ym mis Hydref 2025 i gryfhau'r ddarpariaeth.
Mae gwaith gyda Phlant yng Nghymru wedi sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn llywio polisïau, ac mae dysgu proffesiynol cenedlaethol yn parhau i ehangu drwy'r llwybr ADY ac yn sgil sefydlu Dysgu, sy'n blaenoriaethu cynhwysiant.
Mae cynlluniau peilot newydd ar ddatblygiad plant, niwrowahaniaeth ac iechyd meddwl yn helpu i ymgorffori addysgeg gynhwysol. Gwnaeth cyfres o ddigwyddiadau

yn 2025 wella'r cydweithio ar draws y sector, a chyhoeddwyd adnoddau newydd, gan gynnwys Pecyn Cymorth ADY i Rieni, i gefnogi teuluoedd.
Mae adolygiad annibynnol o eiriolaeth yn mynd rhagddo, ac mae cynghorwyr proffesiynol newydd yn cryfhau arbenigedd mewnol, gan gynnwys gwaith ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac anghenion gofal iechyd. Mae'r argymhellion o ran cyflogau Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd yn cael eu gweithredu.
Mae trefniadau llywodraethu yn parhau ar waith i ddarparu cyfeiriad strategol a chefnogi gwelliant parhaus. Mae arweinwyr gweithredu'r Iaith Gymraeg ac Addysg Bellach Cenedlaethol yn parhau i gynnig cymorth strategol i'r sector. Bydd y gwaith gyda phartneriaid cyflenwi allweddol yn parhau, gan ganolbwyntio ar ddatblygu atebion ymarferol i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso'n gyson a bod cyfathrebu â theuluoedd yn cael eu cryfhau.

## Maes Blaenoriaeth 6: Cyflogaeth a Sgiliau

### 6.1 Mynediad at Hyfforddiant a chadw pobl ag anabledd dysgu yn y gweithle

**Cyflawnwyd yn rhannol – cynnydd da ac mae'r gwaith yn parhau**

Mae Llywodraeth Cymru yn cryfhau cymorth cyflogaeth arbenigol i bobl anabl drwy adeiladu ar waddol Ymroi i Newid, gan gyfuno ymgysylltiad cyflogwyr, rhaglenni wedi'u teilwra, a chymorth wedi'i dargedu.

Mae Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl a Chynghorwyr Busnes Cymru yn helpu cyflogwyr i wella prosesau recriwtio, cadw a dilyniant, gyda chefnogaeth adnoddau ar-lein ymarferol newydd.

Gall pobl ag anabledd dysgu, anhawster dysgu neu awtistiaeth gael mynediad at hyfforddiant swyddi a chymorth personol drwy raglenni fel Cymru'n Gweithio, Cymunedau am Waith a Mwy, Twf Swyddi Cymru +, Lleoliad a Chymorth i Unigolion a'r Gwasanaeth Allan o Waith.

Mae Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn parhau i hyrwyddo'r broses o ddatblygu sgiliau, a gwnaeth Cymru gynnal Rowndiau Terfynol WorldSkills y DU yn 2025 a chyflawni canlyniadau cryf yn y cystadlaethau Sgiliau Sylfaen. Mae tair ardal a dargedwyd gan y Rhaglen Anweithgarwch Economaidd yn profi dulliau newydd ar gyfer pobl anabl

a'r rheiny â chyflyrau iechyd, gan lywio'r broses o ddatblygu Rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd newydd.

At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella mynediad at gyflogaeth â chymorth, hyfforddiant arbenigol a llwybrau cynhwysol i waith, ochr yn ochr â menter Cysylltu â Gwaith Llywodraeth y DU.

Rydym yn ymwybodol bod rhanddeiliaid yn parhau i fod yn rhwystredig ynghylch y ffaith nad oes digon o ddulliau gweithredu penodol ar gyfer anableddau dysgu, a bydd y rhain yn parhau i gael eu hyrwyddo er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r grŵp hwn.

### 6.2 Prentisiaethau â Chymorth

**Cyflawnwyd a'r gwaith yn parhau**

Er bod y cam penodol hwn wedi'i gyflawni, mae diffyg ffocws a data penodol ar gyfer anableddau dysgu o hyd, sy'n gwneud gwerthuso effeithiolrwydd y dull hwn yn heriol.

Gyda chefnogaeth y Cymhelliant i Gyflogwyr ar gyfer cyflogi prentisiaid anabl, cafodd canran y prentisiaid anabl hunanddatganedig ei chynnal uwchlaw 10% ar gyfer 2021/22, ac mae wedi parhau i berfformio uwchlaw'r targed bob blwyddyn ers hynny.

Yn dilyn cynllun peilot cychwynnol, mae prentisiaethau a rennir â chymorth bellach yn gynllun sefydledig, ac o ganlyniad i ddiwedd y rhaglen Ymroi i Newid ynghyd â'r galw gan ddysgwyr Interniaeth â Chymorth mewn colegau AB, mae'r galw'n parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad.

Cynhaliwyd gwerthusiad o'r rhaglen yn 2025 a chafodd y cynllun adborth cadarnhaol ar draws pob mesur.

Cefnogodd y Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr 91 o gyflogwyr i recriwtio a chyflogi prentis anabl yn ystod 2024/25 a chefnogwyd 39 o gyflogwyr eraill yn 2025-26 (ar adeg yr adroddiad).

## Maes Blaenoriaeth 7: Tai

### 7.1 Hyrwyddo ymgysylltiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

**Cyflawnwyd**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ddiwygiedig, 2014, Cod Ymarfer Rhan 2 (2024) a Chanllawiau Statudol Rhan 9 (2025) yn cryfhau'n sylweddol y modd y mae cymorth i bobl ag anabledd dysgu yn cael ei gynllunio a'i ddarparu yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ddyletswyddau statudol cryfach, gwell integreiddio a chydgynllunio, a disgwyliadau cliriach ar gyfer ymgysylltu a chydgynhyrchu. Mae Cod Ymarfer Rhan 2 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu pobl ag anableddau dysgu yn benodol fel grŵp poblogaeth â blaenoriaeth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu dadansoddi, eu diwallu, eu monitro a'u hystyried yn llawn wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae Rhan 9 yn cyflwyno Siarter ar gyfer ymgysylltu ac yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol flaenoriaethu gwaith integredig, cynnal trefniadau cydgomisiynu, a defnyddio cyllidebau cyfun yn fwy effeithiol, gan wella cyfnodau pontio, cynyddu mynediad at gymorth amlddisgyblaethol, a darparu arlwy mwy cyson ledled Cymru.

### 7.2 Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

**Cyflawnwyd ond mae'r gwaith yn parhau**

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi dylunio eu modelau gofal integredig cenedlaethol i ddiwallu anghenion grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sy'n cynnwys pobl ag anableddau dysgu a'r rhai sy'n niwroamrywiol neu sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol. Mae'r gronfa'n adeiladu ar egwyddorion Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau, gan ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau iechyd, cryfhau cynhwysiant cymunedol, a gwella systemau cynllunio ac ariannu. Bellach yn ei phedwaredd flwyddyn, mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cefnogi bron 750,000 o bobl a thua 3,000 o staff yn flynyddol, ac mae cymorth anabledd dysgu yn parhau i fod yn elfen graidd. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys llety rhanbarthol Gogledd Cymru a phrosiect Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol, sydd wedi gwella cyfathrebu ac annibyniaeth, a lleihau ymddygiadau sy'n peri pryder ymhlith oedolion ifanc. Mae dysgu o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol yn ganolog i ddatblygu System Gofal Cymunedol Integredig i

Gymru, a chyhoeddwyd adroddiad Blwyddyn 3 ym mis Rhagfyr 2025. Nod y Gronfa Integreiddio Ranbarthol a'r System Gofal Cymunedol Integredig yw helpu pobl ag anabledd dysgu i fyw bywydau annibynnol, cysylltiedig a boddhaus drwy wasanaethau lleol cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### 7.3 Tai a Llety

| **Cyflawnwyd** |
| --- |

Mae'r Gronfa Cyfalaf Tai yn parhau i fuddsoddi mewn tai a llety i bobl ag anabledd dysgu, gan eu cefnogi i fyw'n annibynnol, cynyddu'r ddarpariaeth leol, a lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r sir, ac mae'r preswylwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Erbyn 1 Ebrill 2025, roedd y Gronfa wedi cefnogi 44 o gynlluniau byw â chymorth i oedolion ag anabledd dysgu, ac wedi buddsoddi cyfanswm o tua £20.8 miliwn. Cynhelir gwerthusiad o'r rhaglen tua diwedd y cyfnod ariannu i asesu ei heffaith a'i heffeithiolrwydd cyffredinol.

## Maes Blaenoriaeth 8: Trafnidiaeth

### 8.1 Gwella trafnidiaeth gyhoeddus

| **Cyflawnwyd – mae'r gwaith yn parhau** |
| --- |

Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (2023) yn cynnwys camau gweithredu i wella hygyrchedd a diogelwch ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad corfforol, darparu gwybodaeth teithio hygyrch, a chynnig cymorth mewn gorsafoedd a chyfnewidfeydd. Gwnaeth datganiad Ysgrifennydd y Cabinet, *Teithio i Bawb,* atgyfnerthu'r ymrwymiadau i greu rhwydwaith trafnidiaeth mwy diogel a chynhwysol wedi'i lywio gan bobl â phrofiad bywyd. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig tocynnau teithio am ddim neu am bris gostyngol i bobl hŷn a phobl anabl, gan gynnwys y rhai ag anableddau dysgu, ochr yn ochr â gwasanaeth Teithio â Chymorth Trafnidiaeth Cymru a Chardiau Cydymaith yr awdurdod lleol i'r rhai y mae angen cymorth arnynt i deithio.

Mae buddsoddiad mawr ar y gweill, gan gynnwys £800m i foderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd a chyflwyno trenau hygyrch newydd. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Trafnidiaeth Cymru 2024–2028 yn nodi camau gweithredu i wella hygyrchedd, gyda chefnogaeth ei Banel Mynediad a Chynhwysiant, sy'n esblygu i fod yn Banel Teithio Pobl Anabl sydd â chylch gwaith ehangach, aml-ddull. Gwnaeth swyddogion trafnidiaeth hefyd gefnogi'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl, a oedd yn cynnwys pobl ag anabledd dysgu, a byddant yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i gyflawni'r ymrwymiadau teithio yn y Cynllun Hawliau Pobl Anabl a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025.

**Atodiad 1 - Crynodeb o'r Cynnydd**

| **Rhif y Cynllun** | **Pwnc** | **Cynnydd** | |
|---|---|---|---|
| | | **Cynllun Cyflenwi** | **Cynllun Gweithredu** |
| **1. Trosfwaol** | | | |
| 1.1 | Datblygu'r Cynllun Strategol | | |
| 1.2 | Hygyrchedd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu | | |
| 1.3 | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | | |
| 1.4 | Arsyllfa Anabledd Dysgu | | |
| 1.5 | Lleihau Arferion Cyfyngol | | |
| 1.6 | Cydgynhyrchu | | |
| **2. Adfer ar ôl COVID a Llesiant** | | | |
| 2.1 | Presgripsiynu Cymdeithasol | | |
| 2.2 | Llesiant | | |
| 2.3 | Adfer ar ôl COVID | | |
| **3. Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | | | |
| 3.1 | Gwasanaethau Arbenigol i Gleifion Mewnol | | |
| 3.2 | Gwella'r Gwasanaeth Marwolaethau | | |
| 3.3 | Hyfforddi'r Gweithlu | | |
| 3.4 | Safonau Ansawdd a Diogelwch | | |
| 3.5 | Archwiliadau Iechyd Blynyddol | | |
| 3.6 | Platfform Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd Digidol | | |
| 3.7 | Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd | | |
| 3.8 | Unigrwydd ac Ynysigrwydd | | |
| 3.9 | Gwasanaethau Dydd, Gofal Seibiant, Seibiannau Byr | | |
| 3.10 | Taliadau Uniongyrchol a Gofal Iechyd Parhaus | | |
| 3.11 | Cefnogi Rhieni ag Anabledd Dysgu | | |
| 3.12. | Adolygu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | | |
| 3.13 | Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.14 | Y Gweithlu Nyrsys Anableddau Dysgu | | |
| 3.15 | Gofalwyr a Pholisi Gofalwyr | | |
| **4. Eiriolaeth, Hunaneiriolaeth, Ymgysylltu a Chydweithio** | | | |
| 4.1 | Eiriolaeth, Llais, Dewis a Rheolaeth | | |
| 4.2 | Cynhwysiant Digidol | | |
| 4.3 | Cyfeillgarwch a Pherthynas ag Eraill | | |
| **5. Addysg, Plant a Phobl Ifanc** | | | |
| 5.1 | Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc | | |
| 5.2 | Anghenion Dysgu Ychwanegol | | |
| **6. Cyflogaeth a Sgiliau** | | | |
| 6.1 | Hyfforddiant a Chyflogaeth | | |
| 6.2 | Prentisiaethau â Chymorth | | |
| **7. Tai a Llety** | | | |
| 7.1 | Gwella Ymgysylltiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol | | |
| 7.2 | Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | | |
| 7.3C | Tai a Llety | | |
| 8 Trafnidiaeth | | | |
| 8.1 | Trafnidiaeth Hygyrch | | |